MAC010

Cynllun Datblygu Lleol Sir y Fflint (2015 – 2030) Archwiliad Cyhoeddus

Mater 10 Gweithredu Datblygu Cynaliadwy – Pwyntiau Gweithredu a NMCau

11eg Mai 2021 9:30am

Cyfeiriadau	Pwyntiau Gweithredu a NMCau	Amserlen	Ymateb y Cyngor/NMC Arfaethedig
PG10.1	Polisi PC1 i gael gwared ar y gair 'yn gyffredinol' o linell gyntaf y polisi.		
PG10.2	Newid y geiriad o dan faen prawf a ym mholisi PC1 i ddarllen 'polisïau HN4, HN4-A, HN4-B, HN4-C a HN4-D' i'w gwneud yn glir fod yna 5 polisi.		
PG10.3	Ym Mholisi PC2 cael gwared ar – 'lle'n briodol' fel ei fod yn darllen – Dylai pob datblygiad:		
PG10.4	Ym Mholisi PC3 cael gwared ar – 'lle'n briodol' fel ei fod yn darllen – Dylai pob datblygiad newydd; a chynnwys maen prawf newydd i amddiffyn amodau byw preswylwyr cyfagos rhag unrhyw effeithiau niweidiol datblygiad newydd gan gynnwys edrych ar y gwaith, niwed i olygon, cynnydd mewn gweithgarwch/tarfu/sŵn.		

PG10.5	Polisi PC4 – cael gwared ar ‘sicrhau’ fel ei fod yn darllen Dylai datblygiad; A chael gwared ar ‘ei fod’ neu ‘ei’ o gychwyn pob maen prawf ac ail eirio yn ôl hynny.		
PG10.6	Newid geiriad polisi PC5 fel a ganlyn: O faen prawf a, dileu ‘lleihau dibyniaeth ar y car drwy ymgorffori’ a’i newid am ‘ymgorffori mynediad da at y dulliau mwy cynaliadwy o deithio, yn gyntaf drwy gerdded a beicio, ac yn ail drwy gludiant cyhoeddus, ac yna drwy gerbyd preifat ag allyriadau isel ac yn olaf drwy gerbyd modur preifat arall;’ Newid maen prawf b i ‘beidio â chyfaddawdu ar ddefnydd diogel, effeithiol ac effeithlon o’r rhwydwaith priffyrdd a pheidio â chael effaith andwyol ar ddiogelwch ar y priffyrdd neu greu lefelau annerbyniol o greu traffig;’ Newid maen prawf c i ‘pan na ellir osgoi effeithiau niweidiol sylweddol i’r rhwydwaith trafnidiaeth sy’n deillio o’r datblygiad arfaethedig, cant eu lliniaru drwy, er enghraifft, welliannau i’r seilwaith trafnidiaeth a rheoli traffig;’		

AP10.7	Polisi PC6- cael gwared ar y cynigion o linell gyntaf y polisi a chynnwys 'Dylai cynigion, ble bynnag bo modd, ar ôl cyfleusterau. Ail-eirio cychwyn pob maen prawf i ddarllen; a. darparu llwybrau cerdded a beicio priodol fel rhan annatod o'r cynllun a chysylltu'r datblygiad â chyrchfannau allweddol; b. darparu isadeiledd a chyfleusterau sy'n hyrwyddo cerdded a beicio, fel arwyddion, goleuadau, mannau storio a pharcio diogel a chyfleus a, le'n briodol, cyfleusterau ar gyfer cael cawod a newid; c. darparu gwybodaeth briodol ar gyfer gwneud dewisiadau wrth deithio mewn perthynas â beicio a cherdded ar gyfer teithiau cyfan neu rannau ohonynt, fel rhan o Gynlluniau Teithio; d. ymgorffori mesurau i leihau'r lle blaenllaw a roddir i gerbydau ynghyd â'u cyflymder, drwy roi mwy o flaenoriaeth i gerddwyr a beicwyr; e. datblygu a gwella'r llwybrau Teithio Llesol a nodir ar y Map Rwydwaith Integredig sy'n cysylltu cymunedau â gwasanaethau hanfodol, gan gynnwys cyfleoedd o ran trafnidiaeth gyhoeddus, cyflogaeth ac addysg;		

	f. Ymgorffori hawliau tramwy cyhoeddus presennol fel rhan annatod o ddyluniad a chynllun y datblygiad.		
PG10.8	Polisi PC8 – o dan baragraff 9.24 cael gwared ar y priflythrennau o'r geiriau 'heddlu', 'ambiwlans awyr', 'milwrol', 'jetiau hyfforddi milwrol', 'jetiau busnes preifat' neu 'awyrennau'		
PG10.9	CSFf i roi penderfyniad apêl i Arolygwyr ynglŷn â Morfa Nefyn.	Anfonwyd penderfyniad apêl at y Swyddog Cynllunio ar gyfer yr Arolygydd ar 11/05/2021	Datblygiad preswyl ar gyfer 6 annedd yn Eglwys y Santes Fair, Lôn yr Eglwys, Morfa Nefyn (APP/Q6810/A/21/3266774) – uwch lwythwyd y penderfyniad apêl i'r Llyfrgell Archwilio Cyf FCC012 Penderfyniad Apêl – 3266774 ar 13/05/2021.
PG10.10	Swyddogion i roi diweddariad i'r archwiliad o ran astudiaeth ddichonoldeb trafnidiaeth Gogledd Sir y Fflint.		